**Cofnodion Cyfarfod Fforwm Derbyn Ceredigion**

**A gynhaliwyd yn**

**Ystafell Aeron Fach, Campws Felin-fach**

**Ar ddydd Llun, 19 Mai 2014.**

**Yn bresennol:** y Cynghorydd Hag Harris (Cadeirydd), Lodwick Lloyd (Llywodraethwr Ysgol)

**Swyddogion a oedd yn bresennol:** Nia James (Gwasanaethau Dysgu), Kay Davies (Gwasanaethau Democrataidd).

**6.00 pm - 6.30 pm**

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd Carol Davies, Helen Hopkins, Peter Leggett a'r Cynghorydd Paul Hinge am iddynt fethu â bod yn bresennol.

**2 Datgelu Buddiant Personol**

Ni ddatgelwyd Buddiant Personol.

**3 Cofnodion Cyfarfod 27 Tachwedd 2013**

**CYTUNWYD** cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2013 fel cofnod cywir.

**4 Dogfen Wybodaeth i Rieni**

Dosbarthwyd gwybodaeth yn nodi'r newidiadau i'w cynnwys yn y Ddogfen Wybodaeth i Rieni.

i. Newidiadau i'r Amserlen Derbyn Plant am y cyflwynwyd Dyddiadau Cynnig Cenedlaethol:

a. O flwyddyn academaidd 2015/16 bydd yn ofynnol i'r dyddiad cynnig ar gyfer lleoliadau uwchradd fod ar y 1af o Fawrth (neu'r diwrnod gwaith nesaf ).

b. O flwyddyn academaidd 2018/19 bydd yn ofynnol i'r dyddiad cynnig ar gyfer lleoliadau cynradd fod ar yr 16eg o Ebrill (neu'r diwrnod gwaith nesaf).

ii. O flwyddyn academaidd 2014/2015 caiff yr eithriad canlynol ei gynnwys yn y cyfyngiad ar faint statudol dosbarthiadau babanod –
Mae plant a eithriwyd yn cynnwys: Plentyn y mae ei gefell neu frawd/ chwaer arall o enedigaethau lluosog yn cael eu derbyn fel disgyblion na eithriwyd, pan gaiff y plentyn hwnnw ei nodi fel y disgybl olaf a dyrannwyd ac wedi derbyn lle cyn cyrraedd y rhif derbyn.

Nodwyd y bydd pob Awdurdod yn dilyn yr un patrwm.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a dderbyniwyd

## 5 Apeliadau Derbyniadau

Adroddwyd fod y Panel Apêl yn ddiweddar wedi cytuno i wrthod apêl (Plascrug) a bod apeliadau eraill ar ddigwydd (Pontrhydfendigaid)

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a dderbyniwyd.

## 6 Niferoedd Derbyn

Dosbarthwyd adroddiad parthed niferoedd derbyn ysgolion unigol. Nodwyd fod y ffigyrau a ragwelir ar gyfer mis Medi 2014 yn dynodi fod ysgolion Ceinewydd, Felin-fach a Phontrhydfendigaid yn llawn.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a dderbyniwyd.

## 7 Polisi Derbyn

Nodwyd fod y Polisi wedi ei newid fel yr amlinellwyd yng nghofnod 5 uchod. Caiff ei ddosbarthu i'r Llywodraethwyr a'i gyflwyno i'r Cabinet yng nghyfarfod y Cabinet yn y dyfodol.

## 8 Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad Ceredigion

Nodwyd nad oedd unrhyw eithriadau i'r adroddiad.

## 9 Unrhyw fater arall

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r uchod yn y cyfarfod nesaf.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Fforwm a gynhaliwyd ar

**Cadeirydd**